# Athro/Athrawes y Gymraeg

Parhaol; Rhan Amser (0.6) yn dechrau ar 1af Medi 2025

## Pecyn Recriwtio



## Cyflwyniad gan y Pennaeth

Diolch am eich diddordeb yn y swydd hon.

Rydym yn falch iawn o'n hysgol gynhwysol ac uchelgeisiol, ac mae gennym ddisgwyliadau uchel tu hwnt ar gyfer pob un o'n myfyrwyr. Rydym yn ymfalchïo yn eu galluogi i dyfu ac i ffynnu. Er mwyn i hynny ddigwydd, mae angen i'n myfyrwyr wneud dau beth syml – gweithio'n galed a bod yn garedig. Mae ein myfyrwyr a'n staff yn ffynnu mewn cymuned lle mae cysondeb a'n harferion ynghyd ag adnabod pob myfyriwr yn dda yn eu cefnogi i gyflawni eu potensial.

Mae gennym fudd adeilad ysgol gwych, sydd wedi ennill gwobrau, a gafodd ei gwblhau'n ddiweddar dan raglen Ysgolion 21ain Ganrif. Mae'n gyfleuster modern gwych sydd ag addysg yn greiddiol iddo. Mewn lleoliad yng nghanol Trefynwy, rydym yn gwasanaethu ein cymuned leol yn ogystal ag ardaloedd cyfagos yng Nghymru a hefyd yn Lloegr. Mae gennym tua 1,700 o fyfyrwyr a 200 o staff, ac mae mwy o alw nag o leoedd ar gael ym mhob grŵp blwyddyn.

Rydym yn hollol benderfynol i ddarparu safon rhagorol o addysg ar gyfer pob plentyn sy'n dod i'n hysgol, fel eu bod yn cael cyfle i arwain bywydau hapus a llwyddiannus. Mae ein hymagwedd at y Cwricwlwm i Gymru wedi ei seilio ar bwysigrwydd pynciau ac ar egwyddor gwybodaeth rymus. Mae ein gwaith ar hyn yn destun astudiaeth achos ddiweddar gan Estyn i rannu ein harfer yn ehangach. Mae ein haddysgeg wedi ei seilio ar dystiolaeth ymchwil ar ddysgu ac ar sut i gynyddu cynnydd myfyrwyr i'r eithaf.

Rydym yn hollol gyfun ac yn darparu ar gyfer ystod eang o anghenion dysgu. Ar hyn o bryd mae 14% o boblogaeth yr ysgol ar y Gofrestr Anghenion Dysgu Ychwanegol. Mae gennym hefyd Ganolfan Adnoddau Arbenigol integredig, sydd hefyd yn destun astudiaeth achos ddiweddar gan Estyn am ei darpariaeth eithriadol o gryf. Daw myfyrwyr o ystod eang o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol a'r cyfartaledd treigl ar gyfer prydau ysgol am ddim yw 13.8%.

Croesawn geisiadau gan ymgeiswyr y mae eu nodweddion a gwerthoedd personol yn adlewyrchu'r rhai yn y fanyleb person, ac y mae eu profiadau hefyd yn eu rhoi mewn sefyllfa glir i gyflawni'r disgrifiad swydd. Caiff rhaglen gynefino lawn a dysgu proffesiynol ystyrlon eu cynnig i'r holl staff.

Byddwch yn ein cael yn grŵp o gydweithwyr cefnogol sy'n gweithio i ddarparu safon eithriadol o addysg ar gyfer yr holl fyfyrwyr yn ein gofal. Ymfalchïwn yn fawr yn yr hyn a wnawn, a rydym yn parhau i fod yn uchelgeisiol iawn am yr hyn y gallwn ei gyflawni gyda'n gilydd yn y dyfodol.

Edrychaf ymlaen at ddarllen eich cais, pe dymunech ymgeisio.

Dymuniadau gorau

**Hugo Hutchison**
**Pennaeth**



## Disgrifiad Swydd

**1 Teitl y Swydd:** Athro/Athrawes Y Gymraeg

**2 Gradd Gyflog:** Graddfa Gyflog Athrawon

**3 Perthnasoedd**

3.1 Mae deiliad y swydd yn gyfrifol i Bennaeth yr Ysgol drwy Arweinydd Cyfadran y Gymraeg ar gyfer dyletswyddau addysgu pwnc ac i'r Pennaeth Blwyddyn ar gyfer Dyletswyddau Dosbarth.

3.2 Mae deiliad y swydd yn gweithio ar lefel broffesiynol gyda phob cydweithiwr (yn allanol ac yn fewnol) fel sy'n briodol i sefydlu a chynnal perthnasoedd cynhyrchiol.

**4 Diben y swydd**

4.1 Cyfrannu at addysgu a gwaith arall y Gyfadran fel y'i diffinnir gan Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru). Fel Athro/Athrawes Dosbarth, i gyflawni dyletswyddau sy'n cefnogi cynnydd disgyblion yn eich Dosbarth.

**5 Cyfrifoldebau**

5.1 Addysgu a chymryd rhan yn natblygiad cynlluniau gwaith, deunyddiau a meysydd llafur y pwnc a'r Gyfadran, gan fynychu cyfarfodydd fel sydd angen.

5.2 Bod yn gyfrifol am eich datblygiad proffesiynol eich hun gan ddefnyddio Cofnod Perfformiad Ysgol Gyfun Trefynwy a'r Ddalen Ddatblygu yn y Polisi Rheoli Perfformiad a Datblygu Proffesiynol i lywio a chefnogi cynnydd gyda'r nod o gyrraedd safonau proffesiynol.

5.3 Rheoli a goruchwylio defnydd a storio llyfrau, deunyddiau papur a deunyddiau addysgu eraill gan sicrhau y cydymffurfir ag unrhyw Reoliadau Iechyd a Diogelwch.

5.4 Cyflawni dyletswyddau Athro/Athrawes Dosbarth yng nghyswllt disgyblion i gynnwys:

- datblygu perthnasoedd dysgu cadarnhaol
- sefydlu rapport gyda disgyblion i ddatblygu eu potensial cymdeithasol ac academaidd ac i fod yn brif ffynhonnell cyfeirio
- marcio cofrestri Dosbarth, gan sicrhau y nodir absenoldeb a hwyrineb a chymryd camau gweithredu priodol pan nad ydynt
- paratoi adroddiadau, proffiliau a thystlythyrau ar ddisgyblion fel sydd angen
- monitro gwaith cartref disgyblion, addysgu cyfnodau Dosbarth, hebrwng y Dosbarth i wasanaethau a mynychu cyfarfodydd tiwtoriaid a gaiff eu galw gan y Pennaeth Blwyddyn

5.5 Gweithio wrth ochr y Penaethiaid Blwyddyn i fonitro cynnydd myfyrwyr a gosod targedau, a sicrhau y caiff anghenion myfyrwyr eu diwallu.

5.6 Goruchwylio dyletswyddau disgyblion fel y manylir gan y pennaeth.

5.7 Sicrhau fod myfyrwyr yn cael y gefnogaeth maent ei hangen gan yr ysgol ac asiantaethau allanol.

5.8 Cynnal a chydymffurfio gyda darpariaethau statudol y Rheoliadau Iechyd a Diogelwch Gwaith 1999, Polisi Diogelu ac Amddiffyn Plant Sir Fynwy 2017 ac unrhyw bolisïau eraill perthnasol gan y Cyngor a'r Ysgol yn ymwneud â diogelu ac iechyd a diogelwch.

5.9 Dilyn polisïau a gweithdrefnau yr ysgol a'r Awdurdod Lleol yn ymwneud â rheoli ymddygiad, gwisg ysgol, cyfrinachedd a diogelu data, gan hysbysu person priodol am bob mater o bryder.

5.10 Gwybod am a chydymffurfio gyda pholisïau a gweithdrefnau yn ymwneud â rheoli Ymddygiad, gwisg ysgol, cyfrinachedd a diogelu data, gan hysbysu person priodol am bob mater o gonsyrn.

5.11 Cynnal a hyrwyddo gweledigaeth ac ethos yr ysgol.

5.12 Cymryd rhan mewn hyfforddiant, gweithgareddau dysgu a datblygu perfformiad fel sydd angen.

**6 Datblygiad Proffesiynol**

Mae'r ysgol yn ymroddedig i gefnogi pawb mewn datblygu eu hymarfer i gyflawni'r deilliannau gorau oll ar gyfer pob myfyriwr. Mae ein polisi ar Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus yn amlinellu'r ddarpariaeth ac ymarfer ar gyfer y swydd hon.

**7 Rheoli Perfformiad**

Mae ein polisi ac ymarfer Rheoli Perfformiad yn ein cefnogi i gyflawni nodau ac amcanion yr ysgol wrth godi safonau. Mae'r Polisi yn nodi sut y caiff perfformiad ei fesur yng nghyswllt nodau a blaenoriaethau yr ysgol. Mae hyn yn cynnwys:

- Data ar gynnydd disgyblion
- Ansawdd addysgu o gymharu â Safonau Addysgu, dulliau addysgu a dysgu yr ysgol a chanllawiau Estyn, yn cynnwys ymarfer a arsylwir
- Hunan-asesiad
- Dialog broffesiynol
- Adborth a dderbynnir
- Datganiadau Rheoli Perfformiad
- Cofnodion Datblygu Proffesiynol Parhaus

8 Mae dyletswyddau a chyfrifoldebau'r swydd yn ddarostyngedig i'r rhai a fanylir yn y Datganiad ac Amodau Cyflogaeth a bydd yn cyfrif fel amser a gyfarwyddir fel y manylir mewn datganiad o'r fath ac fel y'i diffinnir gan y Pennaeth.

9 Nid yw'r disgrifiad swydd hwn yn diffinio yn fanwl holl ddyletswyddau/cyfrifoldebau y swydd. Caiff y swydd ei hadolygu o leiaf unwaith y flwyddyn a gall gael ei haddasu neu ei diwygio ar ôl ymgynghoriad a chytundeb gyda deiliad y swydd.

Monmouth Comprehensive School | Ysgol Gyfun Trefynwy

## Manyleb Person

| | Gofyniad | Hanfodol neu Dymunol | Sut y profir (S) defnyddir wrth lunio'r Rhestr Fer |
|---|---|---|---|
| **Addysg/Cymwysterau** | | | |
| 1.1 | Gradd mewn y Gymraeg neu bwnc cysylltiedig neu ddisgyblaeth gysylltiedig | H | Ffurflen Gais |
| 1.2 | Cymhwyster addysgu | H | Ffurflen Gais |
| **Profiad** | | | |
| 2.1 | Mae croeso cyfartal i ymarferwyr newydd gymhwyso neu ymarferwyr profiadol i wneud cais | | |
| **Doniau a Sgiliau** | | | |
| 3.1 | Gallu i gynnig y Gymraeg ar Gyfnod Allweddol Tri | H | Ffurflen Gais/Cyfweliad |
| 3.2 | Gallu i gynnig y Gymraeg i TGAU a Lefel A | D | Ffurflen Gais/Cyfweliad |
| 3.3 | Gallu i ennyn brwdfrydedd a chymell myfyrwyr yn y Gymraeg | H | Ffurflen Gais/Cyfweliad/Micro-wers |
| 3.4 | Cadw safon uchel mewn perthynas athro/athrawes a myfyrwyr yn yr ystafell ddosbarth | H | Cyfweliad / Micro Wers / Tystlythyr |
| 3.5 | Bod â'r gallu i weithio fel Tiwtor Dosbarth effeithiol | H | Ffurflen Gais/Cyfweliad |
| 3.6 | Medru darparu cyfleoedd allgwriciwlaidd i fyfyrwyr | D | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| **Nodweddion Personol** | | | |
| 4.1 | Bod yn gyfathrebydd effeithiol gyda'r sgiliau rhyngbersonol sydd eu hangen i weithio'n agos gyda chydweithwyr a myfyrwyr | H | Cyfweliad |
| 4.2 | Medru cyfrannu'n frwdfrydig at weledigaeth ac amcanion yr ysgol | H | Cyfweliad |
| 4.3 | Bod yn aelod effeithiol o dîm a medru cymryd yr awenau | H | Cyfweliad |
| 4.4 | Bod yn drefnus a medru gweithredu polisïau'r ysgol yn effeithiol | H | Cyfweliad |
| 4.5 | Bod â chymhelliant uchel | H | Cyfweliad |

## Manyleb Person

| | | | |
|---|---|---|---|
| 4.6 | Bod ag agwedd hyblyg at waith a phobl | H | Cyfweliad |
| 4.7 | Bod yn ymroddedig i ddatblygiad personol pellach | H | Cyfweliad |
| **Diogelu** | | | |
| 5.1 | Ymroddiad i lesiant disgyblion, diogelu ac amddiffyn plant | H | Cyfweliad |
| 5.2 | Tystlythyrau cadarnhaol | H | Yn dilyn llunio'r rhestr fer |
| 5.3 | DBS Estynedig | H | Yn dilyn cyfweliad |

## Gwybodaeth y Gyfadran

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn ymuno ag adran o chwech o athrawon eraill: Pennaeth Adran a phedwar athro arall sy'n addysgu rhan o'u hamserlen yn Adran y Gymraeg.

Mae pob disgybl yn astudio Cymraeg yn yr ysgol o flwyddyn 7-11 ac mae nifer o ddisgyblion yn astudio Lefel A Cymraeg. Mae pawb yn CA4 yn astudio'r TGAU Llawn Cymraeg Ail Iaith newydd. Ceir pum gwers o 50 munud o addysgu y bythefnos ar gyfer CA4 a phedair gwers o 50 munud ar gyfer CA3. Mae canlyniadau'r adran yn arbennig o dda gyda tua 80% o ddisgyblion yn cyflawni A*-C yn TGAU ac yn Lefel A.

Bydd yn ofynnol i chi addysgu pob gallu o flynyddoedd 7 i 11, ac i ymgeisydd â chymwysterau addas fe fydd cyfle hefyd i rannu'r addysgu ar lefel Uwch Gyfrannol a Safon Uwch wrth i'r adran ddatblygu ymhellach.

Mae gan yr adran pum ystafell ddynodedig mewn man canolog ym mhrif adeilad yr ysgol.

Mae'r adran yn cyd-drefnu Eisteddfod lwyddiannus iawn yr ysgol, yn trefnu ymweliad â Chaerdydd i ddisgyblion TGAU, teithiau i gemau rygbi a phêl-droed rhyngwladol ac ymweliad pedwar diwrnod â Llangrannog i Flwyddyn 7. Ceir llawer o gefnogaeth i ddwyieithrwydd o amgylch yr ysgol.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn athro neu athrawes arloesol a brwd ac yn meddu ar weledigaeth glir o sut i ysgogi ac ysbrydoli disgyblion. Byddwch yn rhannu ymroddiad yr adran i weithgareddau allgyrsiol ac i adeiladu ethos Cymreig yr ysgol. Fe gewch chi gefnogaeth lwyr Pennaeth yr Adran a Thîm Arweinwyr yr Ysgol a'r cyfle i ymuno ag adran llwyddiannus iawn sydd ar gyfnod cyffrous yn ei datblygiad.

Gofynnir i'r ymgeiswyr ar y rhestr fer addysgu gwers feicro.



## Broses recriwtio

### 1. Ffurflen Gais

Gofynnir i chi nodi na allwn dderbyn CV. Mae modd lawrlwytho ffurflenni gais o: www.eteach.com

Dylid danfon ceisiadau papur sydd wedi eu cwblhau i'r cyfeiriad canlynol: Mrs Laura Claypole, Ysgol Gyfun Trefynwy, Hen Ffordd Dixton, Trefynwy, Sir Fynwy NP25 3YT.

Dylid e-bostio ceisiadau i: mon.recruitment@monmouth.schoolsedu.org.uk

**Dyddiad Cau:** **Dydd Mercher 30ain Ebrill 2025 am 12:00 canol y dydd**

### 2. Proses Cyfweliadau

**Dyddiad y Cyfweliad**: **Dydd Mercher 7fed o Fai**

### 3. Gwybodaeth Ychwanegol

Os ydych angen mwy o wybodaeth am y rôl hon, cysylltwch os gwelwch yn dda gyda: Mrs Laura Claypole mon.recruitment@monmouth.schoolsedu.org.uk neu 01600 775220

### 4. Diogelu

Caiff penodiad i'r swydd hon ei eithrio o Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr ac mae'n amodol at Wiriad Datgeliad Estynedig. Dylai ymgeiswyr fod yn ymwybodol a chytuno gyda pholisiau sy'n cysylltu ag amddiffyn plant a chanllawiau diogelu, iechyd, diogelwch, cyfrinachedd a diogelu data, yn adrodd unrhyw bryderon i'r person priodol.

Mae Cyngor Sir Fynwy yn gyflogwr cyfle cyfartal ac yn croesawu ceisadau gan bob adran o'r gymuned. Croesawir ymgeisiadau yn Saesneg neu Gymraeg a byddan nhw'n cael eu trin yn gyfartal.

Mae Cyngor Sir Fynwy yn gweithredu polisi Dim Ysmygu yn y Gweithle.

